# Polisi Hygyrchedd

| | |
|---|---|
| Cytunwyd ar ran y llywodraethwyr gan/ Agreed on behalf of the governing body by – (Enw/Name)<br>Shan Thomas | Arwyddwyd/Signed:<br>Dyddiad/Date: |
| Arwyddwyd gan y Pennaeth/ Signed by Headteacher<br>Angharad Vaughan-Owen | E A Vaughan-Owen<br>Dyddiad/Date: 26/03/24 |
| Adolygiad nesaf/Review date: | March 2025 |

# POLISI / CYNLLUN HYGERCHEDD

## Rhagymadrodd

Mae'r polisi/ cynllun hwn wedi ei lunio er mwyn gweithredu Dyletswydd Gynllunio Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas i roi mynediad i'r Anabl. Cyfyd y ddyletswydd gynllunio hon yn sgîl newidiadau a wnaed i Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA) gan Ddeddf AAA ac Anabledd 2001 (SENDA). Mae'r cynllun wedi ei ysgrifennu yn unol â chyhoeddiad arweiniol yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) 'Ysgolion Hygyrch: Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau'.

## Diffiniad o Anabledd

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn diffinio anabledd fel a ganlyn:

> ***'Mae gan unigolyn anabledd os oes ganddo ef neu hi nam corfforol neu feddyliol a gaiff effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu ef neu hi i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd'***

## Nod Allweddol

Creu amgylchedd cyfoethog, sy'n galluogi disgyblion anabl i ymgyfrannu'n llawn yng nghymuned yr ysgol, trwy adnabod a dileu rhwystrau a allai atal hynny.

## Cyfrifoldebau Allweddol

Mae'r ysgol yn cydnabod bod y canlynol yn gyfrifoldebau allweddol sy'n greiddiol i'r ddyletswydd gynllunio:

- Peidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl wrth dderbyn a gwahardd, ac wrth ddarparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig
- Peidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol
- Cymryd camau rhesymol i osgoi gosod disgyblion anabl dan anfantais sylweddol
- Cyhoeddi Cynllun Hygyrchedd

## Egwyddorion yr Ysgol

- Wrth gyflawni eu dyletswyddau, bydd yr holl staff a'r llywodraethwyr yn dilyn Côd Ymarfer Comisiwn Hawliau Anabledd (2002).
- Mae cydymffurfio â gofynion Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn allweddol i holl bolisïau'r ysgol.
- Mae pob plentyn yn unigolyn sydd â hawl i'r addysg orau y gall ei dderbyn beth bynnag fo natur ei anabledd .

- Mae mynediad i Addysg yn golygu gwneud bywyd ysgol cyflawn yn hygyrch i'r disgybl anabl, yn cynnwys gweithgareddau a digwyddiadau allgwricwlaidd.
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer pob disgybl, wedi ei lunio i gwrdd â'i anghenion dysgu unigol.
- Mae'r ysgol yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar adnabyddiaeth rhieni o anabledd eu plentyn a'i effaith ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol.
- Mae'r ysgol yn cydnabod hawl y rhieni a'r plentyn i gyfrinachedd.

**Gweithgareddau**

Bydd yr ysgol yn ymrwymo i gyflawni ei nod allweddol trwy ddatblygu tri maes allweddol:

**1. Mynediad i'r Cwricwlwm**

- Mae'r ysgol yn ymgymryd i asesu ei darpariaeth o'r cwricwlwm i ddisgyblion yn rheolaidd, a defnyddio'r wybodaeth hon fel bod y cwricwlwm yn fwy cydnaws ag anghenion disgyblion.
- Creu cwricwlwm heriol ble gosodir sialensau dysgu addas ac y gellir asesu cynnydd unigolion o ran cyflawniad.
- Ceisio a dilyn cyngor gwasanaethau megis ysgolion eraill, yr AALl, y Llywodraeth, a chyrff annibynnol er mwyn sicrhau'r arfer gorau .
- Parhau i ddilyn a chefnogi egwyddorion allweddol Fframwaith y Cwricwlwm Sylfaen a Chwricwlwm 2008.
- Sicrhau bod athrawon/cymorthyddion yn derbyn hyfforddiant i ddysu a chefnogi disgyblion ac anableddau.
- Cefnogi cwricwlwm ehangach yr ysgol megis cymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol,gweithgareddau hamdden,chwaraeon ac ymweliadau ysgol.

**2. Mynediad i'r Amgylchedd Ffisegol**

- Bydd yr ysgol yn archwilio cyfleusterau sy'n bodoli eisoes ac yn datblygu ffyrdd o wneud yr amgylchedd ffisegol yn fwy hygyrch i bobl anabl.
- Ystyried sut mae gan wahanol namau anghenion penodol a beth yw'r ddarpariaeth orau ar eu cyfer o fewn amgylchedd yr ysgol.
- Ystyried ffyrdd o ddarparu'r cymhorthion a'r adnoddau mwyaf addas, tu allan i ddarpariaeth ADY, neu ddarpariaeth iechyd, y plentyn.
- Chwilio am, a dilyn, cyngor a geir gan wasanaethau megis ysgolion eraill, yr AALl, y Llywodraeth, a chyrff annibynnol er mwyn sicrhau'r arfer gorau.
- Mynediad i addysg yn cynnwys pethau megis TGCH, sgriniau cyfrifiadurol mawr, desgiau a chadeiriau arbennig.

**3. Mynediad at Wybodaeth**

- Archwilio'r dulliau sydd eisoes yn bodoli i ddarparu gwybodaeth a pha gyfryngau a ddefnyddir, datblygu'r rhain er mwyn gwella hygyrchedd.
- Cydweithio ag Ysgolion Lleol, yr AALl a gwasanaethau cefnogi lleol i ganfod y defnyddiau gorau am bris priodol.
- Cynnwys rhieni a disgyblion wrth ddewis y cyfryngau mwyaf addas ar gyfer y plentyn anabl.
- Dylid ystyried sut orau y gellid gwneud yr holl wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol yn fwy hygyrch i'r rhieni a'r disgyblion.
-

**Polisïau Cysylltiedig**

Bydd y cynllun yn cyfrannu at adolygu a diwygio dogfennau'r ysgol cysylltiedig

- Cynllun Datblygu Ysgol
- Polisi ADY
- Polisi Cyfleoedd Cyfartal.
- Polisïau Cwricwlaidd.
- Polisï Cydraddoldeb Hiliol.
- Polisi Ymweliadau
- Polisi Rheoli Moddion.

**Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun**

Bydd copïau o'r cynllun hwn yn cael ei hyrwyddo ac ar gael i rieni disgyblion sydd eisoes yn mynychu'r ysgol neu i rieni darpar ddisgyblion trwy'r dulliau canlynol

- Gwneud cais i'r Ysgol
- Prosbectws yr Ysgol
- Gwefan yr ysgol
- Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr

**Cynllun Cynyddu Mynediad Ysgol Gynradd Gymraeg Gorslas**

Lluniwyd y cynllun hwn ar ôl:

1) cynnal archwiliad o safle'r ysgol mewn perthynas â mynediad yn dilyn cael yr adeilad newydd,
2) ystyried dulliau cyffredinol o wella mynediad
3) ystyried anghenion unrhyw blant ag anableddau sydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn cadw anghenion mynediad yr ysgol dan adolygiad.